# Enillwyr damcaniaethol - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad
Tasg grŵp meddwl yn feirniadol, lle mae angen i'r dysgwyr negodi gyda'i gilydd, gan wneud penderfyniadau ynghylch sut i wario'n ddoeth, ac ysgogi dealltwriaeth ddyfnach o werth.

## Adnoddau
Papur a phennau

Canllawiau tasgau – yn ôl y gofyn

## Paratoi
Dyrannwch y grwpiau – 3-4 dysgwr

## Geirfa
Ennill, 1,000, punt (£), cynilo, rhannu, rhoddi, prynu

## Cyflwyniad/cyd-destun
Pan fydd y dysgwyr wedi eu neilltuo i grwpiau gwaith, rhowch y sefyllfa ddamcaniaethol ganlynol iddyn nhw. Dychmygwch eich bod wedi rhoi cynnig ar gystadleuaeth fel grŵp ac rydych chi wedi ennill y wobr gyntaf, sef £1,000. Mae angen i chi benderfynu gyda'ch gilydd, beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r arian. Archwiliwch werth rhifyddol 1,000, pan fo angen, e.e. 10 x 100.

| | |
|---|---|
| Amser 5-10 munud | **Syniadau cychwynnol**<br>Yn eu grwpiau, gofynnwch i'r dysgwyr ddrafftio syniadau ynglŷn â'r hyn y byddent yn ei wneud â'u henillion a gwneud nodiadau ar eu papur A3. |
| Amser 2 funud | **Cwestiynau arweiniol**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr stopio am eiliad ac ysgrifennwch y cwestiynau canlynol ar y bwrdd. Sut byddwch chi'n rhannu'r arian? Faint fyddwch chi'n ei gynilo? Faint fyddwch chi'n ei wario? A wnewch chi roddi unrhyw arian? |
| Amser 5-10 munud | **Parhau**<br>Gadewch i'r dysgwyr ddychwelyd at eu trafodaethau ac ailystyried, gan feddwl am y cwestiynau hyn. |
| Amser 2 funud | **Cwestiynau ehangu**<br>Cyfrannwch at y trafodaethau grŵp gan ofyn i'r dysgwyr; Beth fyddan nhw'n ei brynu? I bwy y byddan nhw'n rhoddi arian? Ar gyfer beth fyddan nhw'n cynilo? Sut gallen nhw ddefnyddio eu harian i ennill mwy o arian? Sut byddwch chi'n rhannu'r arian? Faint fyddwch chi'n ei gynilo? Faint fyddwch chi'n ei wario? A wnewch chi roddi unrhyw arian? |
| Amser 5-10 munud | **Parhau**<br>Caniatewch i'r trafodaethau barhau. |
| Amser 10-20 munud | **Cyflwyno**<br>Fesul grŵp, gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno, yn anffurfiol, eu penderfyniadau ynghylch gwario eu harian. |
| Amser 5 munud | **Casgliad**<br>Cynigwch adborth i'r dysgwyr ar eu dull o wneud y dasg, eu penderfyniadau, eu gwaith tîm a'u canfyddiadau o werth. Dathlwch y dysgwyr sydd wedi defnyddio dulliau arloesol, fel cyfuno arian i brynu eitemau a rennir. |